# y dinesydd

Chwefror 1998 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 234


# COFIO CYMWYNASWRAIG FAWR

Mae'r *Dinesydd*, dros y blynyddoedd, wedi bod yn gyfrwng i groniclo'r achlysuron, mawr a bach, o bwys i ni sy'n byw ein bywydau drwy'r Gymraeg yn y Brifddinas. Yn y rhifyn hwn, ni allaf feddwl am ddigwyddiad tristach na theilyngach i hawlio sylw'r dudalen flaen, na marwolaeth Shân Emlyn, cymwynaswraig fawr ein papur bro.

Bu teyrngedau teilwng iawn iddi ar lefel genedlaethol am ei gwaith diflino yn hybu'r cysylltiad rhyngom a thrigolion y Wladfa, a'i chyfraniad gwerthfawr i'r Gymdeithas Alawon Gwerin a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ond gyda'r *Dinesydd* y gwelsom ni ei hymroddiad llwyr i'r 'pethe'. Fe wireddwyd ei breuddwyd wrth iddi ei weld yn esgor ar bapurau bro eraill led y wlad.

Fedr neb a fu'n cydweithio â hi dros y blynyddoedd yn rhoi'r papur hwn i'w wely'n fisol, ddweud bod 'na ryw sêl arbennig, neu dân yn ei bol fel golygydd. Ond mi oedd yna bendantrwydd, cadernid, optimistiaeth a chariad angerddol tuag at ei chyd-Gymry.

Yn bersonol, cefais y fraint o fod yn Gadeirydd y *Dinesydd* yn ystod ei chyfnod fel golygydd, a melys yw'r cof am bwyllgora yn ei chwmni. Fel y gŵyr pawb, bu'r *Dinesydd* drwy gyfnodau anodd iawn, a phrin oedd yr arian ar adegau i'w gynnal. Ond doedd wiw sôn wrthi am fynd i'r wal. 'Twt, mi ddaw petha'n well' oedd ei hymateb bob tro. Does dim dwywaith, roedd ei brwdfrydedd, a ffrwynodd yn ofalus, yn heintus. Wna'i byth anghofio iddi grybwyll y syniad o gyhoeddi 'Dinesydd Dyddiol' yn Steddfod Genedlaethol Casnewydd, mewn cydweithrediad â'r *South Wales Argus*. Rwy'n cofio mynd â hi i gyfarfod golygydd a staff yr *Argus* am y tro cyntaf i gyflwyno'n cais a'n cynllun, a minnau, o ychydig ffydd, heb ddweud dim wrthi am fy amheuon. Sut fyddai newyddiadurwyr caled, sinicaidd yn ymateb i ryw bwt o gylchgrawn rhad ac am ddim, oedd am weld golau dydd yn ddyddiol ar eu 'patch' nhw? Sôn am siom o'r ochr orau. Roeddwn yn gwbl ymwybodol drwy gydol y cyfarfod hwnnw fod ei phresenoldeb hawddgar, ei sirioldeb, a'i dawn o ddwyn perswâd, wedi cario'r dydd, a mawr fu llwyddiant y fenter. Menter, gyda llaw, ddaru olygu oriau lawer o waith i amryw, ond chlywais neb erioed yn cwyno. Lle bo'r *Dinesydd* yn y cwestiwn, roedd rhywun yn ysgwyddo'r baich, er mwyn y 'pethe', ac er mwyn Shân.



Bu ei chymwynasau yn amhrisiadwy, bydd ei cholli yn ergyd drom, ac ni allwn ni, ddarllenwyr a chefnogwyr y *Dinesydd*, gofio Shân mewn modd teilyngach na sicrhau ei barhad i'r dyfodol.

***Robin Jones***

**YSGOLORIAETH SHÂN EMLYN**

Mae Ymddiriedolwyr Cronfa Canmlwyddiant y Wladfa, Yr Athro Glyn O. Phillips, Y Dr Harri Pritchard Jones a Robin Jones, yn cynnig ysgoloriaeth newydd eleni i goffáu y ddiweddar Shân Emlyn. Fe'i gelwir yn 'Ysgoloriaeth Shân Emlyn'.

Gwahoddir ceisiadau gan unrhyw un sydd â chynllun i hybu'r berthynas rhwng Cymru a'r Wladfa. Fe all hyn olygu teithio, gwaith ymchwil neu gyhoeddi. Gwerth yr Ysgoloriaeth fydd hyd at £1,000. Anfonwch am fanylion pellach at:

Robin Jones
"Clwyd", 1 Kings Road
Radur, Caerdydd CF4 8EB




Bu Cen Williams, y cartwnydd, yn cydweithio'n agos â Shân Emlyn yn ystod ei chyfnod hir yng nghadair golygyddol *Y Dinesydd*. Pan glywodd am ei marwolaeth, gwnaeth fersiwn arbennig o 'Salem' yn deyrnged weledol iddi. 'Gweld cannwyll yn diffodd wrth i'r hen ddiawl yna chwythu'r fflam allan, a'r traddodiadau Cymreig yn pylu, a wnes i,' meddai. 'Teyrnged bersonol ydyw i gyfaill groesawus ac annwyl iawn.' Ymddangosodd fersiwn cynharach o'r llun yn rhifyn 8 Ionawr o'r cylchgrawn, *Golwg*, yn cyd-fynd ag erthygl deyrnged i Shân Emlyn yno.

# Y Dinesydd

**Chwefror 1998, Rhif 234. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mawrth at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 17Chwefror:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd.*

Enw: ...........................................................................

Cyfeiriad: ...........................................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ...........................................................................

Cyfeiriad: ...........................................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 13 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Y Glowr.' Sgwrs gan y Parch. Gareth H. Davies, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.
**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Techniquest', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Seiat Holi, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m. Aelodau'r panel: Huw Ethall, Alun Daniel, Beti-Wyn James.
**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs am 'Gymeriadau' gan John Albert Evans, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Gwener, 20 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Egwyl ym Mro Ogwr' gan Eirian E. Edwards, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Mercher, 25 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu Gŵyl Ddewi, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m. Gwestai: Yr Esgob Cledan Mears.
**Iau, 26 Chwefror–Sadwrn 28 Chwefror**
Cwmni Dalier Sylw yn perfformio 'Y Cinio' (Geraint Lewis) yn Theatr y Sherman. Dydd Iau a dydd Gwener am 1.00 p.m. ac 8.00 p.m.; dydd Sadwrn am 2.00 p.m. Tocynnau: 01222-230451.
**Gwener, 27 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng ngwesty Mount Sorrel, 7.30 p.m. ar gyfer 8.00 p.m. Gwestai: Parch. Haydn Thomas.
**Gwener, 27 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.
**Llun, 2 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson Cawl a Chân, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.
**Llun, 2 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch: Cinio Gŵyl Ddewi, yn BP Plastics, Sili, am 7.30 p.m. erbyn 8.00 p.m. Gŵr gwadd: Yr Athro Hywel Teifi Edwards. Manylion pellach: Gerwyn Williams (01222-512016).
**Llun, 9 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson y Dysgwyr, dan ofal Gwilym Roberts, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Mercher, 11 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Verena Matthews, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Iau, 12 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Yr Eglwysi wedi'r Datganoli'. Sgwrs gan y Parch. Ddr Patrick Thomas yn Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.
**Gwener, 13 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gŵyl Ddewi, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m. Gwraig wadd: Rhian Evans, Caerfyrddin.
**Llun, 16 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Bywyd a Marwolaeth Celloedd.' Darlith gan Dr Maureen Bowen (UWIC), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 17 Mawrth**
Côr y Tabernacl yn perfformio *Mab y Dyn* gan Arwel Hughes, yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais am 7.30 p.m. Tocynnau wrth y drws (£3).
**Mawrth, 17 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd yn ymweld â Chymrodorion y Barri, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m..
**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Cwis Cymru a'r Cymry dan ofal Catherine Jobbins, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.
**Iau, 19 Mawrth**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Gwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.00 p.m. erbyn 7.30 p.m. Gwraig wadd: Ray Phillips, 'Blwyddyn fel Arglwydd Faeres Dinas Caerdydd'.
**Gwener, 20 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: Noson i Ddathlu Pen-blwydd *Y Dinesydd* yn 25 mlwydd oed, yn theatr Capel y Crwys, Richmond Rd., am 7.00 p.m. Arweinydd y noson: Robin Jones.
**Mercher, 25 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Gafin Morgan, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.
**Llun, 6 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Eisteddfod, yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 6.30 p.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Diolch o galon i'r eglwysi canlynol am gyfrannu'n ddiweddar at gynnal *Y Dinesydd*: Salem, Treganna; Minny Street; Ebeneser, Heol Siarl; Y Crwys; a'r Tabernacl, Yr Ais.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## *Y Dinesydd* - ôl ddy wê

Maen nhw'n dweud, a phwy ydw i i ddadlau, mai'r Cymry Cymraeg yw'r defnyddwyr mwyaf (y pen) o'r We Fyd Eang yn y byd i gyd. 'Dwn i ddim sut fyddai dyn yn mynd ati i hel 'stadegau i brofi na gwrthbrofi hynny, ond 'ta waeth, mae'r Dinesydd o leiaf, erbyn hyn yn aelod o'r rhengoedd rheini sy'n byw yn y byd rhithiol hwnnw.

Ie, 'dan ni "ar y we", neu "on the ffordd", neu rywbeth. Erbyn eich bod chi'n darllen hon, dylai fod yn bosib ichi gael hyd inni yn hawdd trwy ddefnyddio unrhyw un o'r peiriannau chwilio arferol, megis 'Yahoo', 'Lycos', 'Excite', 'HotBot', ac ati ac ati. Ond i wneud yn gwbl saff ohoni, dyma ein cyfeiriad (URL) yn ei holl ogoniant:

**http://ds.dial.pipex.com/town/parade/ow12/**

Penderfynwyd gosod tudalennau'r cyfeiriadur: *Yn Gymraeg ... Yng Nghaerdydd a'r Fro* i fyny i gychwyn, gan farnu mai hwy fyddai'r tudalennau mwyaf defnyddiol i'n darllenwyr - ond bydd datblygu. Os ydych chi am ychwanegu at y cofnodion ar y tudalennau, neu gywiro beth sydd yno ar hyn o bryd, llenwch y ffurflen sy'n rhan o'r wefan a gwnawn ni'r gweddill.

A chofiwch pa mor Gymreigaidd yw'r We. Wedi'r cwbl, nid Universal Resource Locator yw URL, ond UnRhywLe, yntê.

***Peter Bradley***

***Nodyn Golygyddol***
*Rydym yn hynod ddiolchgar i Peter Bradley am ei holl waith yn creu a chynnal ein safle ar y We, ac yn edrych ymlaen at ddatblygiadau cyffrous arni yn y dyfodol.* Y Dinesydd *yn arloesi eto!!*

## Cartref Newydd i'r Eglwys Efengylaidd

Roedd dydd Sul, 9 Tachwedd, yn ddyddiad llawen a chyffrous yn hanes yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Dyma'r Sul cyntaf iddi addoli yn ei chartref newydd yn Rhymney Street, Cathays.

Hyd yn hyn, cafodd yr Eglwys dri chartref ar rent yn y ddinas. Ar gychwyn yr achos yn 1979, bu'n addoli yn Nhŷ'r Cymry, Gordon Road, yna yn adeilad y 'Cardiff City Mission' yn Crofts Street, ac yna am y pedair blynedd ddiwethaf yng Nghanolfan yr Urdd yn Conway Road. Mawr yw dyled a diolch yr Eglwys i'r cyfeillion hyn am eu caredigrwydd a'u hynawsedd dros y blynyddoedd.

Braf adrodd mai tyfu cyson a fu'n gyfrifol am y symud o fan i fan dros y blynyddoedd. Oherwydd y twf yn y gynulleidfa a'r angen am ystafelloedd ychwanegol ar gyfer gwahanol weithgareddau, bu'n ddymuniad gan yr Eglwys ers tro gael cartref mwy parhaol; a daeth y cyfle hwnnw'n ddiweddar pan ddaeth un o gapeli Saesneg y Presbyteriaid yn ardal Cathays ar y farchnad.

Mae'r fenter hon yn golygu ymrwymiad mawr ar ran yr aelodau, o safbwynt prynu'r adeilad a sicrhau'r trwsio a'r addasu angenrheidiol. Serch hynny, edrychant ymlaen yn fawr at ymgartrefu yn yr adeilad, gan weddïo y bydd y symud hwn yn hwyluso eu tystiolaeth i'r efengyl yn y ddinas.

## Menter Caerdydd a Busnesau sy'n Mentro

Mae Menter Iaith Caerdydd yn chwilio am fusnesau yn ardal Caerdydd er mwyn eu henwebu ar gyfer Gwobrau Busnes Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Nod y cynllun hwn yw gwobrwyo busnesau sydd wedi cynhyrchu deunyddiau sy'n gwneud defnydd creadigol a blaengar o'r Gymraeg. Mae'r Gwobrau Busnes yn cynnwys tri phrif gategori:

- Arwyddion
- Pecynnau
- Categori Agored (gan gynnwys taflenni, pamffledi, deunydd hyrwyddo a marchnata, hysbysebion ac ati)

Os ydych am enwebu unrhyw fusnes yn ardal Caerdydd trwy'r Fenter, dylech gysylltu â Richard Lewis (Cadeirydd Menter Caerdydd) ar (01222) 874710.

## Cyfyng Gyngor Ron

Bydd yr Ysgrifenydd Gwladol, Ron Davies, yn pend*roni* yn ystod mis Chwefror ynghylch y lleoliad gorau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hyd at 20 o safleodd posibl, eu hanner o Gaerdydd, wedi eu cyflwyno i'r Swyddfa Gymreig erbyn y dyddiad cau ar gyfer y cynigion, ddiwedd Ionawr.

Cyflwynwyd deisebau, â degau o filoedd wedi'u llofnodi, i gefnogi ceisiadau Caerdydd ac Abertawe. Mae ail ddinas Cymru wedi gwneud cais cryf , ond ym marn *Y Dinesydd*, bydd yn anodd i Ron Davies a'i weision sifil ddiystyru pob un o'r safleoedd posibl yng Nghaerdydd. 'Mae'r ymgyrch dros gartref i'r Cynulliad yng Nghaerdydd yn parhau er bod y cynigion i mewn,' meddai Ceri Preece, Is-Lywydd Siambr Fasnach y Brifddinas ac un o arweinwyr yr ymgyrch. Disgwylir penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol tua Dydd Gŵyl Ddewi.

## Llongyfarchiadau

– i Nia a David James, ar enedigaeth Ffion Menna, chwaer fach newydd i Bethan a Lowri, ac wyres arall i Helen a Noel Gibbard, Pen-y-lan.
– i Huw Chiswell ar gael ei benodi'n gomisiynydd adloniant ysgafn gydag S4C.
– i Linda Leach o Gwmni Surexit ar gael ei phenodi'n gydlynydd yr Ŵyl Animeiddio Ryngwladol sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd ym mis Mehefin.
– i John Hayes, dirprwy bennaeth y chweched dosbarth yn Ysgol Glantaf ar gael ei benodi'n ddirprwy brifathro Ysgol Plasmawr, ysgol uwchradd Gymraeg newydd Caerdydd, sy'n agor ei drysau ym Medi 1998.

## Ymddeol o Gadair y Gymraeg

Mae'r Athro Glyn E. Jones newydd ymddeol o fod yn bennaeth Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Daeth yn bennaeth yr Adran yn 1988, a gwelwyd cryn lewyrch o dan ei arweiniad: cafwyd cynnydd sylweddol iawn yn nifer y myfyrwyr sy'n graddio bob blwyddyn; crewyd cymuned luosog o fyfyrwyr ymchwil; datblygwyd gradd MA mewn Astudiaethau Gwerin ar y cyd ag Amgueddfa Werin Cymru; daeth Canolfan Dysgu Cymraeg y Brifysgol yn Park Place yn rhan o'r Adran; penodwyd yr Athro Colin H. Williams, sy'n awdurdod byd-eang ar gynllunio ieithyddol, yn Athro Ymchwil amser-llawn; mewn un asesiad ymchwil gan y Llywodraeth, enillodd yr Adran glod arbennig am ei gofal academaidd dros ei myfyrwyr, ac mewn asesiad arall dyfarnwyd iddi Raddfa 5 am safon ei gwaith ymchwil, sy'n gosod yr Adran yn y rheng flaenaf un yn ei maes.

Mae cael Adran Gymraeg ffyniannus yn y Brifddinas yn fater o'r pwys mwyaf, wrth gwrs. Llongyfarchiadau cynnes iddo, felly, am ei waith a'i weledigaeth, a phob dymuniad da iddo yn ei ymddeoliad. Da dweud y bydd yn parhau ei gysylltiad â'r Adran at y dyfodol fel Athro Ymchwil, gan ganolbwyntio yn arbennig ar ei waith ymchwil ar dafodieithoedd Cymraeg Powys.

* * *

Mae Cwmni Dalier Sylw, sydd â'i bencadlys yn Chapter, yn mynd â'r gomedi fachog *Y Cinio* gan Geraint Lewis – drama sydd bellach yn rhan o faes llafur drama TGAU – ar daith ledled Cymru rhwng 26 Chwefror a 20 Mawrth. Dyma'r ail dro i'r cwmni lwyfannu'r ddrama hon. Yn sgîl y perfformiad cyntaf yn 1995, cyhoeddodd y cwmni fersiwn printiedig o'r ddrama, sydd bellach wedi gwerthu dros 500 copi.

## Dau awdur yn dathlu Pen-blwydd

Bydd yna dipyn o ddathlu yng nghartref Mr a Mrs O. E. Roberts, Radur y gwanwyn yma pan fydd y ddau yn dathlu eu penblwyddi yn naw deg oed - Fflorens ar 14 Ebrill ac O. E. ar 19 Ebrill.

Peth gweddol gyffredin yn y byd sydd ohoni yw bod rhywun yn cael byw i weld dathlu pen-blwydd o'r fath; nid mor gyffredin efallai yw clywed am bâr priod yn cyrraedd yr oedran yma o fewn dyddiau i'w gilydd, a'r ddau o hyd yn amlwg yng nghylchoedd diwylliannol a chrefyddol y Brifddinas. Mwy anghyffredin byth yw clywed am awdures yn dathlu'r pen-blwydd pwysig hwn ychydig fisoedd ar ôl i'w chyfrol ddiweddaraf ddod o'r wasg. I wneud y sefyllfa yn fwy anghyffredin byth, mae'r pâr annwyl yma ill dau yn awduron.

Cyfrolau am natur a enillodd i O. E. y Fedal Ryddiaith ar ddau achlysur yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ond nofelau wedi eu seilio ar ffeithiau yw cynnwys dau o lyfrau cynharaf Fflorens, sef *Betsi Penrhiw* sydd yn rhoi hanes y nyrs enwog Betsi Cadwaladr, a *Bod yn fyw sy'n fawr ryfeddod,* cyfrol wedi ei seilio ar atgofion Fflorens ei hun yn ystod ei gyrfa fel nyrs. Yn ystod ei hamser yn gweini ar y cleifion mewn ysbyty yn Lerpwl, bu ar ymweliad â Phrâg, ac atgofion am y ddinas honno a'i hysbrydolodd i ysgrifennu ei chyfrol ddiweddaraf, *Y Rhosyn Coch.*

Pen-blwydd hapus i Fflorens ac i O. E. - a dymuniadau gorau am benblwyddi hapus eto yn y dyfodol.

**Ray Evans**

## Ymddeoliad Emyr Jenkins

Fis Ebrill bydd Mr Emyr Jenkins, Rhiwbina, yn ymddeol o'i swydd fel prif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru ar ôl pedair blynedd yn y swydd. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol. Dymunir ymddeoliad hapus iddo.

## Rhosod - Nid Rhith

Ym 1998, bydd Amgueddfa Werin Cymru yn blodeuo i bob cyfeiriad wrth i'r gwaith ddechrau ar adfer hen erddi rhosod yr Amgueddfa i'w cyflwr gan mlynedd yn ôl.

Bryd hynny, roedd gerddi'r Amgueddfa yn encilfa ramantus, yn llawn dop o wahanol fathau o rosod sy'n brin iawn heddiw. Roedd yna byrth bwaog, wal rosod wedi ei haddurno â gwaith trelis, a deildy gyda chamlas gron o frics - mae ei sylfeini i'w gweld hyd at heddiw.


Dywedodd Andrew Dixie, Rheolwr Ystadau yr Amgueddfa, 'Ym 1998 mi fyddwn ni'n dathlu pen-blwydd yr Amgueddfa'n hanner cant - felly rydym ni wedi penderfynu cyflwyno tusw o flodau iddi! Mae gennym luniau gwreiddiol o'r ardd, a gafodd eu tynnu rhwng 1899 a 1915, a rhestr gyflawn o'r rhosod a dyfid ar y pryd, gan gynnwys rhai mathau sydd wedi hen ddiflannu o'r tir - Princess Beatrice, Lucy Carnegie a Turner's Crimson Rambler yn eu plith.'

## Gwragedd a'r Cynulliad

Cynhelir cyfarfod yng Nghanolfan Datblygu Cymunedol Glanyrafon, Stryd Brunel (y neuadd ar y ddaearlawr) am saith o'r gloch, nos Wener 6 Mawrth i drafod lle gwragedd yn y Cynulliad Cenedlaethol newydd. Bydd Julie Morgan, yr aelod seneddol, yn annerch.

**Cynhelir** Eisteddfod Gristnogol Cwm Rhondda ar 7 Mawrth yng Nghwmparc (yng Nghapel y Parc ac yn y Ganolfan Gymdeithasol), yn cychwyn am 11 o'r gloch. Manylion pellach: Eilian Williams (01443-437199).

## Gwnewch Bopeth yn Gymraeg




Mae meddygon teulu, fferyllwyr, deintyddion ac optegwyr yn ardal Awdurdod Iechyd Bro Taf sy'n medru'r iaith yn arddangos bathodyn arbennig y dyddiau hyn yn dangos eu bod yn barod i drin cleifion trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth lansio'r cynllun, dywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, "Rydym yn croesawu ymrwymiad Awdurdod Bro Taf i warchod hawliau defnyddwyr Cymraeg."




Llond ceg o Gymraeg - Catrin Rhys, deintydd yng Nghaerdydd yn rhoi cyngor deintyddol i Gadeirydd Awdurdod Iechyd Bro Taf, Kate Thomas, dan olwg barcud Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

## Cofio bardd a bocsiwr

Cwynir yn aml yng Nghymru nas oes dim ar gyn-gartref bardd neu lenor i ddynodi iddo fod yn byw yno. Gwnaed iawn am hyn ddiwedd mis Hydref yn hanes un o'n beirdd gorau fu'n ysgrifennu yn Saesneg sef John Ormond. Gyda Don Dale Jones yn llywyddu, dadorchuddiodd un o'i gyfeillion agosaf, yr arlunydd Kyffin Williams, blac (o waith Ieuan Rees) i gofio amdano ar fur 15 Heol Conwy.

Yn ddiweddar hefyd cafwyd cyfle i gofio am Jim Driscoll y bocsiwr. Codwyd cerflun iddo ar safle yr hen Glwb Ieuenctid i Fechgyn ar ben Heol Bute. Fe'i cerfluniwyd gan Philip Blacker. Dywedir mai ei arwyl ef oedd y fwyaf a welodd Caerdydd erioed.

## Colli Gwyneth Morgan

Ddechrau Ionawr bu farw Mrs Gwyneth Morgan, Llandaf, yn 81 oed, wedi salwch byr. Bu Mrs Morgan (gyda'i gŵr, y diweddar Trefor Morgan) yn golofn i'r bywyd Cymraeg, ac yn enwedig addysg plant, drwy ei hoes. Bu'r ddau'n gyfrifol am gychwyn Cwmni Yswiriant Undeb a hefyd Ysgol Breswyl Gymraeg Glyndwr ger Pen-y-bont, a hwy a fu'n gyfrifol am sefydlu Cronfa Glyndwr yr Ysgolion Cymraeg, sydd ers chwarter canrif yn cynnig cymorth ymarferol i unigolion a grwpiau sydd yn hybu addysg Gymraeg yn lleol ledled Cymru. Ymladdai ei brwydrau yn erbyn yr awdurdodau'n addfwyn ond yn gadarn. Bu'n dysgu Hanes (a gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg pan nad oedd hynny'n ffasiynol bob amser) yn Ysgol Uwchradd Ystalyfera, cyn i honno fynd yn ysgol ddwyieithog. Cydymdeimlwn â'i phlant, Branwen, Angharad, Lowri a Rhodri yn eu colled a'u galar.

## Geni Lydia Mair

Mae'n bleser gan Anwen a Simon Young gyhoeddi genedigaeth eu merch, Lydia Mair, ar 29 Tachwedd 1997 yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Bethlehem Gwaelod-y-garth

Ar drothwy'r Nadolig bu Clwb Ieuenctid CAIB unwaith yn rhagor yn ymarfer yn gyson ar gyfer Drama'r Nadolig. Wedi'r holl ymarferion a'r cydweithio roedd hi'n amser cyflwyno'r ddrama o flaen cynulleidfa Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Roedd yna lawer o nerfusrwydd a phoeni tu ôl i'r llwyfan ryw bum munud cyn y perfformiad ond cyn i ni droi rownd roedd y cwbwl drosodd. Ac i ddweud y gwir roedd wedi mynd yn eitha da - diolch i'r drefn! Diolch hefyd i Emyr Edwards am ysgrifennu'r ddrama ac i Delwyn Siôn a Sioned Mair, Delyth Evans a Mrs Powys am ein helpu i roi trefn ar bethau. Heblaw amdanyn nhw byddai pethau wedi mynd yn shwl-di-mwl lawer gwaith! Edrychwn ymlaen yn awr at yr arlwy mae Joy ac Eifion Glyn wedi ei ddarparu i ni am weddill tymor CAIB.

***Esyllt Dafydd***

## Bethel, Rhiwbina

Roedd y capel yn orlawn ar gyfer Gwasanaeth Nadolig y Plant. Gwledd i'r llygaid oedd gweld cynifer o blant a phobol ifainc yn adrodd stori'r Geni. Diolchwyd i'r athrawesau am ddysgu'r plant ac i'r organydd, Dr Richard Elfyn Jones, gan y Gweinidog, y Parchg D Haydn Thomas. Ef hefyd a gyflwynodd anrheg Nadolig i bob un o'r plant ar ôl y gwasanaeth.

Ar ddydd cyntaf Rhagfyr bu angladd Mrs Phyllis Williams, Heol Llanishen Fach, yn Amlosgfa'r Ddraenen *(Thornhill)*. Prin ddwy flynedd y bu hi'n aelod ym Methel - ers iddi hi a'i diweddar ŵr, Sam, symud i Gaerdydd o ardal Port Talbot. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchg D Haydn Thomas.

## Minny Street

Yn ystod Gŵyl yr Adfent cawsom fis o gyfarfodydd amrywiol ond bendithiol tu hwnt. Noson gofiadwy i'r Gymdeithas dan ofal Eirlys Eckley, cyfarfodydd ieuenctid, oedfaon Cymun - a ninnau'n cael y fraint o groesawu a chadarnhau aelodaeth pedwar o ieuenctid yr Eglwys ynghyd â phedwar o gyfeillion sydd wedi symud atom o ardaloedd eraill, gwasanaeth arbennig o eitemau llafar a chân wedi ei drefnu gan Meudwen Davies a Marian Lake ac, wrth gwrs, cyflwyniad plant yr Ysgol Sul, dan arweiniad Elinor Patchell a Marged Williams a llu o gymwynaswyr, o Ddrama'r Geni. Hyn i gyd yn ein tywys at fore Nadolig, a ninnau'n croesawu aelodau'r Crwys atom, ac arweiniad arbennig y Parchg Cynwil Williams.

## Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

Dychmygwch ferch ifanc osgeiddig yn cerdded o'r cefn drwy gynulleidfa luosog yn cario piser yn llawn dŵr. Saif am ychydig o flaen pawb cyn i un o'r dyrfa fynd ati gan gwpanu ei ddwylo, a hithau yn arllwys dŵr iddynt. Wedi iddo yfed ac ymolchi ychydig, daw eraill ymlaen a gwneud yr un fath.

Darlun tebyg i hwn, a seiliwyd ar brofiad arbennig a gafodd yn Brasil, a gyflwynodd y Parchg Enid Morgan i ni ar ddechrau ei hanerchiad 'Lle Gweddi ac Addoliad mewn Gwasanaeth' yng Nghapel y Tabernacl nos Iau, 8 Ionawr. Yn ei phrofiad gwefreiddiol gwelodd y symbol o gydaddoli yn dod yn weithredol ac yn fyw.

Mae'r symbol weladwy yn gymorth i lawer o bobl fynd at Dduw. Ar y llaw arall, mae rhai yn ofni symbolau ac yn ymwrthod â hwy. Gallwn fod yn rhy gysurus ac yn bigog yn ein dulliau o addoli. Efallai mai'r hyn sydd ei angen ar ein traddodiadau crefyddol yw'r math o gyfaddawd sydd yn dod ag ychydig o newid ar y tro.

Gogleisiol iawn oedd yr hanes am y Protestant o Sgotyn yn gorymdeithio drwy'r gynulleidfa gan wasgaru arogldarth o'i ffuser a mwmian wrtho'i hun, "Wnaiff e ddim lles i chi, wnaiff e ddim drwg i chi".

Pwysleisiodd y siaradwraig fod distawrwydd yn gallu bod yn werthfawr iawn hefyd. Ar derfyn un gynhadledd brysur a fynychodd, cafwyd oedfa nodedig gan y Crynwyr. Daeth yr ugain munud o ddistawrwydd â'r fendith fwyaf a brofwyd drwy'r holl gynhadledd i gyd. Roedd hefyd yn hawdd ei drefnu!

Diolch o galon i'r Parchg Enid Morgan am anerchiad nodweddiadol wreiddiol a ffres. Cawsom i gyd ein procio a'n diddori o'r dechrau i'r diwedd. Noson fuddiol dros ben.

Y Cadeirydd mwyn oedd y Llywydd am eleni, y Parchg Noel Evans. Diolch i Dr Alun Tudur am fod yn Llywydd mor ffyddlon yn 1997. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall.

***Gilbert a Rhian Ruddock***

## Eglwys y Crwys

Bu'r cyfnod o gwmpas y Nadolig yn hynod o brysur yn Eglwys y Crwys. Ganol Rhagfyr cafodd aelodau Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa gyfle i wrando ar ddetholiad o gerddoriaeth dymhorol wedi ei threfnu gan y Dr Dewi Lewis. Cawsom ein tywys ar hyd llwybrau cerdd a chân rhai o wledydd Ewrop gan daro i mewn i Gymru ar dro.

Fel arfer daeth Siôn Corn ar ei dragwyddol daith i festri'r capel. Roedd ei sach yn llawn i'r ymylon. Y Sul cyn y Nadolig roedd y capel yn orlawn i wrando ar gynhyrchiad Siân Griffiths ac athrawon yr ysgol Sul o stori'r Nadolig o Rwsia – Papapanoff. Gyda'r hwyr yr un diwrnod daeth tyrfa luosog at ei gilydd i wasanaeth o garol a gair. Rhieni ifanc yr eglwys a lywiodd yr oedfa hon.

Drannoeth y Calan cynhaliwyd cyfarfod gweddi ddechrau'r flwyddyn o dan nawdd y Gymdeithas Ddiwylliannol. Dathlu'r flwyddyn newydd oedd y thema eleni ac fe luniwyd y rhaglen gan Mr O E Roberts a Mr Robin Jones.

## Eglwys Bethel Penarth

Daeth Tymor y Nadolig â'i brysurdeb arferol i Gapel Bethel Penarth. Nos Sul 7 Rhagfyr cynhaliwyd noson o 'Garolau i Bawb'. Arweiniwyd y canu gan Mr Iwan Guy, yn cael ei gynorthwyo ar yr organ gan Mr Vernon Llywelyn. Llywydd y noson oedd Mr Rowland Owen.

Y Sul cyn y Nadolig cyflwynodd aelodau'r ysgol Sul eu gwasanaeth Nadolig arferol. *Pibydd Bethlehem* oedd teitl y stori eleni ac fe'i hysgrifennwyd a'i chynhyrchu gan Mrs Iris Cobbe, yn cael ei chynorthwyo gan athrawon yr ysgol Sul.

Yn blygeiniol fore Nadolig daeth yr aelodau ynghyd i wasanaeth y plygain. Cyrhaeddwyd y capel yn nhywyllwch y bore cynnar a'i adael awr yn ddiweddarach yng ngoleuni toriad gwawr.

Y Sul cyntaf o'r flwyddyn derbyniodd yr eglwys wyth o aelodau newydd o blith yr ieuenctid. Arweiniwyd y gwasanaeth derbyn gan y gweinidog, y Parchedig Meurwyn Williams. Enwau y rhai a dderbyniwyd yw: Ruth Evans, Lowri Jones, Rhian Samuel, Sarah Lewis, Rhys Jones, Hannah Evans, Dewi Harris a Thomas Paker.

# YSGOL GLANTAF

## CWRS STOREY ARMS

Bob blwyddyn caiff disgyblion blwyddyn 10 y cyfle i fynd ar gwrs awyr-agored yng nghanolfan Storey Arms ym Mannau Brycheiniog. Eleni aeth tua 24 ynghyd â rhai o'r chweched dosbarth ar y cwrs. Yn ystod yr wythnos rhoddwyd pwyslais arbennig ar gydweithio fel tîm a chafodd y disgyblion flas ar amrywiol weithgareddau megis canwio, mynydda ac ogofeuo. Hyfryd oedd gweld rhai yn goresgyn eu hofnau wrth geisio meistroli sgiliau newydd.

Disgwylid i'r disgyblion hefyd gydweithio i gadw'r ganolfan yn lân a chynorthwyo gyda gweini'r bwyd, golchi'r llestri a gwneud brechdanau. Roedd y cwrs eleni eto yn llwyddiant mawr gyda'r plant yn ymateb yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol i bob agwedd o'r gweithgareddau fel y gwelir o'r lluniau hyn.







## Y 'Clothes Show'

Bob blwyddyn cynhelir y 'Clothes Show' yn yr NEC yn Birmingham. Ar 8 Rhagfyr aeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i ymweld â'r sioe am y dydd a chael amser gwych yno. Dyma flas o'r sioe yn sylwadau rhai o'r disgyblion:

'Roedd cymaint o siopau yno. Roeddwn wedi ffansïo rhywbeth ond pan es i nôl i drïo ffeindio'r stondin doeddwn i ddim yn gallu ei gweld.'

'Roeddwn i wedi mwynhau'r sioe ffasiynau ac roedd y gerddoriaeth yn effeithiol iawn.'

'Roedd y dillad yn rhad iawn. Prynais siwmper a fyddai'n costio £30 yng Nghaerdydd am £5.'

'Roedd y bwyd yn ddrud iawn a doedd dim llawer o lefydd i eistedd.'

'Gwelais Tim Vincent, oedd yn arfer cyflwyno 'Blue Peter', a Karyn Franklin', cyflwynydd y 'Clothes Show.'

'Roedd hi'n bosib cael trin eich gwallt, cael coluro ac yna cael eich llun wedi'i dynnu ar y diwedd.'

'Roedd llawer o'r siopau yn rhoi pethau fel samplau o golur a phersawr am ddim.'

'Roedd colegau enwog fel y 'London College of Fashion' yn arddangos eu portffolios ac yn hysbysebu cyrsiau'.

***Camille Parrow, Catrin Palfrey, Rhiannon Grey, Samantha Jones a Sara Williams.***

**Llongyfarchiadau**

- **i Dylan Jones** ar gael cynnig lle yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Derbyniodd Dylan ganmoliaeth uchel am safon ei draethodau a'i ymateb deallus yn y cyfweliad.
- **i James Millet**, blwyddyn 9, a **Rhys Hoare**, blwyddyn 10 ar gyrraedd rownd derfynol 'Cystadleuaeth Badminton Ysgolion y Sir'.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Mynydd Bychan

### Tymor yr Hydref

- Casglwyd ffrwythau a llysiau ac arian ar gyfer cartrefi Wallich Clifford yn ystod ein gwasanaeth diolchgarwch ym mis Hydref.
- Ym mis Tachwedd, daeth y plant ag arian er mwyn gwneud "llwybr arian" ar hyd prif goridor yr ysgol. Mesurodd y llwybr ryw 21 metr a chasglwyd £121 ar gyfer Plant mewn Angen.
- Cynhaliodd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon noson gaws a gwin a chodwyd dros £600 i brynu llyfrau i'r llyfrgell.
- Rhoddodd Geraint Jarman gyngerdd yn y Gyfnewidfa Lo ym mis Rhagfyr i godi arian i'r ysgol ac i Ysgol Feithrin Nant Lleucu.
- Bu'r disgyblion ar sawl gwibdaith. Aeth y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 i Sain Ffagan. Bu Blwyddyn 2 o dan y ddaear ym Mharc Treftadaeth y Rhondda. Aeth Blwyddyn 3 i Techniquest a dilynodd Blwyddyn 4 afon Taf o'r Bannau i Fae Caerdydd.
- Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig "Nadolig yr Anifeiliaid" yn Eglwys Efengylaidd Mynydd Bychan - diolch i'r Parchedig Vernon Higham am adael i ni ddefnyddio'r adeilad.
- Canodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn y Deml Heddwch i gynulleidfa o feddygon i ddathlu dechrau mudiad iechyd newydd ar gyfer plant gan Awdurdod Iechyd Bro Taf.
- Ymddangosodd rhai o'r plant ar raglen "Cytgan yr Adar" ar S4C dros y Nadolig.

### Y Tymor hwn

- Cafodd y plant hwyl a sbri pan ddaeth Plwmbo a Rosfa i'r ysgol i'n diddanu ni gyda'u sioe.
- Ysgrifennodd nifer o blant Blwyddyn 3 a 4 lythyrau at capten tîm Rygbi Cymru, Gwyn Jones, ar ôl ei ddamwain ac ymddangosodd rhai ohonynt ar y raglen deledu "Heno" ac ar raglen Newyddion Radio Cymru.
- Mae plant yr adran iau wedi dechrau gwersi criced am y tro cyntaf o dan reolaeth Mr Malcolm Price, Morgannwg.

- Yn y dyfodol agos, bydd plant y dosbarth derbyn yn ymweld â Tesco, Croes Cwrlwys i weld y bacws.
- Mae trefniadau ar y gweill i efeillio ag Ysgol Llangadog.

## Ysgol Gymraeg Newydd Y Barri

Agorwyd drysau Ysgol Gymraeg Newydd y Barri am y tro cyntaf ddydd Llun, 3 Medi 1996, gydag un dosbarth derbyn. Ar ôl bod yma am flwyddyn lwyddiannus dros ben mae dosbarth arall wedi ymuno â ni. Yn gofalu am y plant mae Miss Rhian Jones - Blwyddyn 1, Mrs Nerys Brown - Dosbarth Derbyn, Mrs Paula Williams - Cynorthwywraig a Mrs Glenna Evans - athrawes mewn gofal.

Ar hyn o bryd rydym yn rhannu safle gydag Ysgol Sant Curig ond yn gobeithio cael symud i'r rhan ddwyreiniol o'r Barri erbyn Medi 1998. Gyda gwaith caled a chydweithrediad y staff, y rhieni a'r llywodraethwyr rydym yn hyderus y bydd y drydedd ysgol Gymraeg yn y Barri yn mynd o nerth i nerth.

### Ffion a William yn Ffoi cyn y Nadolig

Rhoddwyd troedfeddi o ofod yn y Wasg i ddyweddïad a phriodas Ffion Llywelyn, ail ferch Emyr a Myra Jenkins sy'n byw ers blynyddoedd yn Rhiwbina, ac wedi bod yn amlwg ym mywyd y Brifddinas. Trwy gydol 1997, carwriaeth Ffion a Mr William Jefferson Hague a gipiodd ddychymyg newyddiadurwyr Prydain oll, yn enwedig ar ôl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gael ei ddewis gan y Toriaid i'w harwain.

Priodwyd y ddau yng nghapel 'St Mary's Undercroft' yn Mhalas Westminster ddydd Gwener, 19 Rhagfyr am ddau o'r gloch y prynhawn, ac roedd nifer o Gymry yn bresennol, ffrindiau Ffion, ei chwaer Manon, a'u rhieni. Daeth teulu'r priodfab, ei rieni, ei chwiorydd a'u rhai agos i lawr o Swydd Efrog, ac yno hefyd yr oedd Cadeirydd ei blaid, Mr Cecil Parkinson, Llefarydd y Tŷ, a nifer o aelodau seneddol oedd yn gyfoeswyr i Mr Hague. Un ohonynt oedd y rhedwr enwog rai blynyddoedd yn ôl, Mr Sebastian Coe

Yr oedd y gwasanaeth wedi'i drefnu'n ofalus gan y pâr ifanc, mewn cydweithrediad â'r clerigwr sydd â gofal am blwyf Westminster, y Dr Donald Gray, gyda gweinidog Ffion, y Parchedig Cynwil Williams, Eglwys y Crwys, yn cynorthwyo, ac yn arwain gyda'r rhannau oedd yn y Gymraeg. Roedd y litwrgi wedi'i phlethu'n chwaethus â cherddoriaeth addas, gyda Mr Thomas Trotter, a ddaw'n achlysurol i Neuadd Dewi Sant, wrth yr organ. Yn Llundain, ef yw organydd Eglwys y Santes Margaret, dros y ffordd i'r Senedd, a chôr yr eglwys enwog hon fu'n canu yn y gwasanaeth. Darllenwyd yn Gymraeg gan Mr Dewi Thomas o Ben-y-bont, ac yn Saesneg gan athro gwleidyddiaeth Mr William Hague.

Crewyd awyrgylch go unigryw gan Mr Jeremy Huw Williams, priod Manon (a oedd yn gweini ar Ffion gyda'i merch fach, Indeg). Canodd ef y drydedd Salm ar hugain, y gerddoriaeth gan R. Vaughan Williams. Miss Elizabeth Stephens o Gaerdydd oedd yr unawdydd arall, a dewisodd hi ganu "Gwisgoedd Nef", Mrs Dilys Elwyn Edwards. Gan fod dau emyn, un ar y dôn "Blaenwern" a'r llall ar "Cwm Rhondda", clywyd y Cymry a oedd yn bresennol yn boddi'r gwahoddedigion eraill!


Trefnwyd y brecwast o fewn y Palas, a gwefreiddiol oedd cerdded y coridorau hirfaith, heibio i "lawr y tŷ", y llyfrgelloedd a'r ystafelloedd pwyllgorau i ystafell y Llefarydd. Drws nesaf, roedd darpariaeth helaeth ar gyfer pawb, a chlamp o fwrdd i'r ddau a briododd a'r rhai agosaf atynt. Mr Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr Cyngor y Celfyddydau yng Nghymru, a siaradodd gyntaf, gan groesawu ei fab yng nghyfraith i'r teulu. Fel gyda'r addunedau ynghynt yn y dydd, gwnaeth Mr Hague ymdrech ganmoladwy iawn i ddweud tipyn yn iaith gyntaf ei briodferch a oedd yn edrych yn hardd iawn mewn gwisg a gafodd gymeradwyaeth y Wasg, a fu'n disgwyl yn eiddgar i'w gweld.

Ar ôl i'r gwas priodas siarad, gwahoddwyd y gwahoddedigion i adael ystafell y wledd, a disgyn rhai grisiau hyd ar lannau Tafwys. Ymhen ychydig funudau, roedd y ddau wedi newid, ac yn wresog eu ffarwel i bawb oedd yn gweld y cwch cyflym yn anelu amdanynt. Cipiwyd hwy, fel Caledfwlch, cleddyf Arthur gynt, ac yng ngoleuni'r ddinas, gwelwyd hwy'n ffoi tua'r gorllewin, cyn cymeryd awyren yn ddiweddarach am yr India, yn y dwyrain.

Bydd holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn dymuno'r gorau i'r ddau, ac ni fyddai'r rheiny oedd yn bresennol yn synnu na fydd Mr. William Hague, os bydd yr amser yn caniatáu, yn darllen papur bro hynaf Cymru, a hynny'n fuan iawn.

# NEWYDDION YR URDD

# Gweithgareddau



## Ysgolion Uwchradd

### Ynys Enlli
Trip wedi ei drefnu gan yr Urdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 Glantaf ac ysgolion uwchradd De Ddwyrain Cymru i Ynys Enlli, 11 - 18 Ebrill. Cyfle unigryw i wneud gwaith cadwraeth yn un o safleoedd prydferthaf Cymru. Cost: £115 gan gynnwys bws, cwch, llety, bwyd a partis!!

### Trip Beics i Lydaw
Trip beicio 10 diwrnod o amgylch Llydaw rhwng 26 Mehefin a 5 Gorffennaf ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Glantaf ac ysgolion Uwchradd De Ddwyrain Cymru. Cost: £170 gan gynnwys croesi, llety a bwyd.


### Trip Gwersylla yn Llydaw
Trip gwersylla 5 diwrnod i Lydaw ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 Glantaf. Byddwn yn gadael yn gynnar bore Mercher 1 Gorffennaf ac yn dychwelyd nos Sul 5 Gorffennaf. Byddwn yn aros yn Quimper ac yn ymweld â Benodet, Lorient a Concarneau. Cost: £99 gan gynnwys croesi, gwersylla, bws, yswiriant a brecwast.

### Cwrs 'Techno'yr Urdd
Ar gyfer disgyblion Dosbarth 6 Glantaf. Cwrs penwythnos ym Mhentre Ifan, Penfro. Cyfle i weithio gyda offer 16 trac TASCAM samplers, dec digital & midis. Dim ond lle i 16 o ddisgyblion sydd. Cost: tua £70 am y penwythnos, bws o Gaerdydd ac yn ôl, bwyd ac offer. Jungle, house, trans, acid-house, funk a world music a Special Guest. Bydd y penwythnos dan ofal y grŵp techno 'Tocio'.

### Live Music Now
Ugain mlynedd yn ôl sefydlodd Yehudi Mennuhin yr elusen "Live Music Now" gyda'r bwriad o roi cyfle i gerddorion ifanc ar ddechrau eu gyrfa broffesiynol i berfformio'n gyson a dwyn cerddoriaeth i sylw mwy o bobl. Sefydlwyd Cangen Cymru o'r elusen saith mlynedd yn ôl a'r cyfarwyddydd yw Gillian Green, y delynores o Waelod-y-garth. Yn ystod 1997 trefnodd 27 o berfformiadau mewn ysgolion, cartrefi'r henoed, canolfannau dydd i'r henoed ac ati. Hir oes i'r elusen sy'n rhoi pleser i gynifer.

### Cyfeillion yn Cyfnewid
Enw arall ar 'Cyfeillion yn Cyfnewid' yw 'Operation Friendship'. Mae cangen y mudiad hwn yn Eglwys y Crwys yn agored i ieuenctid eglwysi Cymraeg y cylch a thu hwnt. Mewn cylchdro o ddwy flynedd caiff ieuenctid Caerdydd a'r Taleithiau Unedig gyfle i gyfnewid ymweliadau rhwng y ddwy wlad. Eleni tro pobl ifainc Caerdydd yw derbyn Americaniaid i'w cartrefi ac fe ddigwydd hynny dros gyfnod o dair wythnos yn ystod Gorffennaf ac Awst 1998. Mae trefniadau eisoes ar y gweill i greu rhaglen o weithgareddau cytbwys a diddorol gyda'r pwyslais ar addysgu a chymdeithasu. Mae deg o ieuenctid eisoes wedi dangos awydd i gyfrannu at y trefniant cyfredol.

## Ysgolion Cynradd



### Cwrs Merlota
Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4,5,6 ysgolion cynradd Caerdydd a'r Fro. Cyfle i ddysgu merlota a chael hwyl ar ddydd Gwener 20 Chwefror. Diwrnod llawn yn Llancarfan, cost: £18.50 gan gynnwys offer. Gadael Canolfan yr Urdd am 9.45am a dychwelyd erbyn 3.45pm.

### Cwrs Pêl-droed
Dwy sesjwn pêl-droed ar gyfer Blwyddyn 3,4,5 a 6 yn y brif neuadd yn Athrofa Chwaraeon Gerddi Soffia ddydd Mawrth, 17 Chwefror.
Sesiwn Bl 3 a 4 10.00am - 12.30pm
Sesiwn Bl 5 a 6 1.00pm - 4.00pm





### Cwrs Pêl-fasged
Cwrs Pêl-fasged ar gyfer bechgyn a merched Blynyddoedd 4, 5 a 6 dan arweiniad tîm pêl-fasged 'Cardiff Pheonix' yn Athrofa Chwaraeon Gerddi Soffia, ddydd Mercher 18 Chwefror. Cwrs diwrnod 11.00am - 3.30pm.

### Trip i Cadbury's World
Trip i Cadbury's World ddydd Iau 19 Chwefror, ar gyfer disgyblion Bl 5 a 6 ysgolion Caerdydd a'r Fro. Croeso i bawb. Gadael y Ganolfan am 10.00am a dychwelyd erbyn 7.30pm. Cost: £17.50 gan gynnwys bws a mynediad.




### Cynllun Chwarae'r Urdd
Yn rhedeg o ddydd Llun 16 hyd ddydd Gwener 20 Chwefror yng Nghanolfan yr Urdd, rhwng 8.30am a 1.00pm. Gofal ar gyfer plant dosbarth derbyn hyd at Blwyddyn 4. Bydd diddanwyr i mewn pob dydd a chyfle i goginio, chwarae gemau a chelf a chrefft. Hwyl i bawb.

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## RYGBI



Dylai hi fod yn adeg gyffrous yn awr - fe fu hi felly gynt gydag ymweliadau â'r Hen Ogledd, Iwerddon, Ffrainc a Lloegr i'w trefnu. Ond nid mwyach, nid pethau i'n cyffroi ydyw'r dadlau parhaus rhwng y clybiau mawr a'r Undeb, dileu'r gystadleuaeth rhwng clybiau Ewrop (Cwpan Cwrw Heineken) - y gystadleuaeth a ddaeth â gwir ddiddordeb i'r gêm - a'r arian a ddug rai o'n chwaraewyr gorau dros y ffin i bencadlysoedd miliynyddion Lloegr. A beth am Bencampwriaeth Ewrop, Pencampwriaeth y Pum Gwlad? Fe'i cynhelir eleni, ond am sawl tymor arall, tybed?

Af fi'n ôl at y rhain yn y man, ond dylid dechrau trwy sôn am y Cwpan Her a drefnwyd ar frys i sicrhau y ceid gornestau i'r wyth prif glwb i lenwi'r bwlch rhwng y gornestau yn y Cynghrair a Phencampwriaeth y Pum Gwlad.

Bydd y rowndiau cynderfynol a therfynol ym mis Mawrth pan fydd y pedwar clwb o wyth Cymru'n chwarae am y tlws. Hurt, twp, sothach pur oedd barn y rhan fwyaf o'r dilynwyr a phwyllgorau'r clybiau eu hunain hyd nes i'r Teirw o Ogledd Transvaal gyrraedd ganol Ionawr. Daethai'r gystadleuaeth yn rhywbeth gwerth ei gwylio'n ddiysmwth. Undeb yw Teirw'r Gogledd, nid clwb, ac ymhlith y 30 oedd yn eu carfan, yr oedd un ar ddeg wedi cynrychioli De Affrig - chwech ohonynt yn nhîm cyntaf y wlad. Y capten oedd eu hwythwr, Adriaan Richter, ac er iddynt orffen tymor y 12 Pennaf y llynedd yn yr wythfed safle, nhw oedd yr unig dîm i'r enillwyr, Auckland, fethu â'u curo. (40-40 oedd hi yn Pretoria.)

Yn y gystadleuaeth honno, mae pum tîm o Seland Newydd, pedwar o Dde Affrig a thri o Awstralia yn cynrychioli rhanbarthau'r tair gwlad yn chwarae ei gilydd unwaith, ac edrychwn i ymlaen ag awch i weld un o'r deuddeg yn chwarae yng Nghymru.

Ni'm siomwyd: yr oedd eu gornest ar Sain Helen yn wych ag un cais ar ddeg rhwng y ddau dîm, pump i Abertawe. O'r dechrau cyntaf roedd hi'n amlwg mai bwriad yr holl chwaraewyr oedd cadw'r bêl yn fyw gan redeg a chefnogi a phasio, ac fe wefreiddiwyd y dorf o 3,500. Nid cystal gornest a welwyd ar Heol Sardis ymhen tridiau, ond rhaid bod y maes lleidiog yn llesteirio'r timau; Neil Jenkins a'i henillodd â'i chwe gôl gosb, ac ni sgoriodd y Teirw, ond gan eu bod yn arbrofi cryn dipyn â symudiadau a thacteg yn baratoad ar gyfer cystadleuaeth y 12 Pennaf nesaf, yr oedd digon o gyffro a chwarae o'r safon uchaf. Hir oes i'r gystadleuaeth hon a llongyfarchiadau calonnog i Terry Cobner am ei chreu. Ni fydd y tramorwyr yn chwarae yn y ddwy rownd olaf, ond gwelwn Gaerdydd (enillwyr Adran B) yn erbyn Llanelli (ail yn Adran A), a Phontypridd (enillwyr yn A) yn chwarae Castell Nedd (ail yn B). Mawr obeithio y gwelir y fath rygbi ag a welwyd ar Sain Helen.

### Cwpan Heineken

Penderfynodd deuddeg clwb cryfaf Lloegr na ddymunent gystadlu am hon bellach - ymyrrai â gornestau eu cynghrair, meddent. Yn lle'r gystadleuaeth yr oeddynt yn awyddus i sefydlu Cwpan i'w clybiau a deuddeg o Ffrainc, gan gael gwared ar y Celtiaid yn gyfan gwbl. Cymysg oedd barn y Ffrancod, debyg, ond erbyn hyn hwyrach cawn wybod beth a ddigwydd y tymor nesaf.

A beth am y Pum Gwlad a fu'n hynod o gyffrous er ei dechrau yn 1908? Wele eiriau Dick Best yn y *Daily Telegraph* wedi'r ornest rhwng Lloegr a Seland Newydd: "Ym Mharis y bydd gornest nesaf Lloegr, yng Nghystadleuaeth y Pum Gwlad. Enillwyr honno fydd y pencampwyr. Efallai mai cnul y Pum Gwlad oedd camp dydd Sadwrn (sef Lloegr.. 26, Seland Newydd .. 26). A oes ei hangen hi bellach? Chwarae eilradd ydyw. Y mae'r bwlch rhwng Lloegr a Ffrainc a'r Celtiaid yn bod eisoes. Lledu a wna." Hen dro inni beidio â chael gwared ar Loegr yn negawd y 70au, onide? Byr yw eu cof.

Ym mis Ionawr, cyfarfu Pwyllgor y Pum Gwlad i ystyried cais Yr Eidal i ymuno â'r Bencampwriaeth yn 2000; derbyniwyd y cais gan bedair gwlad ond anghytunodd y bumed - Lloegr, a rhaid oedd cael pleidlais unfrydol. Trahauster. Pam na chawn ni Bencampwriaeth y Pum Gwlad â'r Eidal yn lle'r Saeson? The Rugby Union a lefara a gwae'r lleill na wrendy.

***Thomas Davies***

**Clwb Teithio Crwys**
**Taith Pasg 1998**

**Y Swistir a'r Eidal**

***14-24 Ebrill***

***11 diwrnod - 10 noson***
***CINIO, gwely a brecwast***
***Bws cyfforddus - 'executive'***
***Gwestai moethus safonol 3/4****
***Cwmni ardderchog***
***Croeso i unrhyw un ymuno a'r daith***
***Cysylltwch a Bob Roberts (627903)***
***neu Aled Evans (494376)***
***AR UNWAITH !!***

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

**2 CYNORTHWY-YDD SIOP RHAN AMSER**

**Cyflog: £4.50 yr awr gan gynnwys pensiwn**

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd hon yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Disgwylir i chi gynorthwyo'r Arolygydd Siop drwy roi gwasanaeth i'r cyhoedd a gweithredu'r til, yn ogystal â rhywfaint o waith clerigol. Byddai profiad o weithio mewn siop a thrwydded yrru yn fantais, ynghyd â gwybodaeth o ofal/gwasanaeth cwsmeriaid. Y Gymraeg yn hanfodol.

ORIAU GWAITH: Dydd Llun - Dydd Gwener 11.00am-3.00pm NEU Dydd Sadwrn & Dydd Sul 10.00am-5.00pm

*Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ffoniwch ein gwasanaeth peiriant ateb ar 01222 645511, gan gyfeirio at y cyfeirnod: MSG5/12/PS/REMWL*

*Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 27 Chwefror 1998*

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Mae'r Nadolig drosodd a gobeithio rydych i gyd yn barod i ail ddechrau eich gwersi Cymraeg unwaith eto ! Ar ôl bwyta ac yfed gormod cofiwch wneud adduned y flwyddyn newydd hon i ymarfer eich Cymraeg trwy'r amser. Erbyn hyn mae mwy o nosweithiau cymdeithasol nag erioed o'r blaen yng Nghaerdydd yn ogystal ag Ysgolion Undydd yng Nghaerdydd a'r Fro. Yn ystod y misoedd nesaf bydd Eisteddfod y Dysgwyr yn cael ei chynnal, bydd eich tiwtoriaid yn rhoi gwybodaeth i chi am hyn yn fuan iawn. Os hoffech ragor o wybodaeth am weithgareddau CYD ffoniwch fi ar 01222 486469. Blwyddyn Newydd Dda!!

## EISTEDDFOD Y DYSGWYR

Nid yw'r Eisteddfod hon wedi cael ei chynnal ers sawl blwyddyn ond rydym yn bwriadu ei chynnal unwaith eto yn ystod y misoedd nesaf. Mae'n gyfle gwych i gwrdd â dysgwyr eraill a mwynhau perfformio yn y Gymraeg !

## TAIR NOSON YR WYTHNOS!

Ydych chi eisiau ymarfer eich Cymraeg gyda'r nos? Erbyn hyn mae'n bosibl i chi ei wneud dair noson yr wythnos yng Nghaerdydd !

| | | |
|---|---|---|
| **NOS FAWRTH** | 7.30 - 9.30pm | Tafarn y Conwy, Treganna, Caerdydd |
| | Ffoniwch Dafydd Bridle 01222 736600 | |
| **NOS FERCHER** | 9.00 ymlaen | Tafarn y Tavistock, |
| | Stryd Bedford (ger Heol y Plwca) Y Rhath. | |
| **NOS IAU** | 9.00 ymlaen | Lolfa Gwesty Parc y Rhath |
| | (Roath Park Hotel), Heol y Plwca, Y Rhath. | |

## CYSTADLEUAETH Y FLWYDDYN NEWYDD

Dyma'ch cyfle chi i ennill copi o fideo newydd a chyffrous Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1962 pan oedd pethau fel arwyddion ffyrdd dwyieithog yn cael eu hystyried yn bethau od! Mae'r fideo yn sôn am hanes a dyfodol y mudiad ac mae nifer o bobl enwog yn siarad am beth mae'r Gymraeg yn ei olygu iddyn nhw, gan gynnwys Ieuan Evans, Nigel Walker, actorion 'Pobol y Cwm', Cerys Catatonia â llawer mwy ! Os hoffech archebu copi o'r fideo, cysylltwch â Lleucu Meinir ar 0467 403577 (ffôn symudol) neu 01222 486469. Pris y fideo yw £4.99 (£1.50 ychwanegol trwy'r post). Ond mae'n bosibl i chi ennill copi yn y gystadleuaeth yma! Yr unig beth mae'n rhaid i chi ei wneud yw ysgrifennu rhwng 100 a 300 o eiriau ar 'Y Parti Nadolig'. Anfonwch eich gwaith ataf i, Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Caerdydd, CF2 3AJ.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob yn ail ddydd Mawrth** 12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fawrth** 7.30 - 9.00pm | Tafarn y Conwy, Treganna, Caerdydd. Dafydd Bridle 01222 736600. |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fercher** 9.00pm ymlaen | Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford, Y Rhath, Caerdydd. Gareth Kiff 01222 486469. |
| **Pob nos Iau** 9.00pm ymlaen | Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*), Heol y Plwca (*City Road*), Caerdydd. |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |

# Troed yn Ôl a Throed Ymlaen

Mae arddangosfa ddawnsio gwerin sydd i'w gweld yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan tan ddydd Sul, 3 Mai, sef 'Troed yn Ôl a Throed Ymlaen' â chysylltiad arbennig â chylch Caerdydd. Mewn pryd y llwyddodd ychydig o bobl nodedig, yn eu plith Margretta Thomas o Nantgarw, i achub yr hen ddawnsfeydd rhag mynd i ddifancoll yn y pumdegau.

*'...mae ganddyn nhw ffordd bell i fynd cyn y gallan nhw ddawnsio fel yr 'en bobl. Mae'r bechgyn yn dawnsio'n rhy debyg i fenywod, welwch chi. D'yn nhw ddim yn ddigon cyhyrog. Flynyddoedd yn ôl, byddai'r bechgyn yn neidio'n uwch na'r menywod, ac achos eu bod nhw mor egnïol, roedd y menywod yn edrych yn fwy merchetaidd.'*

Aeth deugain mlynedd heibio ers i Mrs Margretta Thomas o Nantgarw adrodd y geiriau hyn i dâp-recordydd ac mae dawnsio gwerin Cymru wedi dod ffordd bell ers hynny. Diolch i gof ardderchog Mrs Thomas achubwyd rhan fawr o draddodiad dawnsio gwerin Cymru - ac eto, mae'n rhyfedd nodi na ddawnsiodd hi erioed.

Roedd ei theulu, fel llawer eraill a ddaeth yn drwm o dan ddylanwad Anghydffurfiaeth, yn ystyried dawns fel llwybr i uffern. Roedd Ifan Tomos, tad-cu ei gŵr, yn stepiwr o fri tan iddo gael tröedigaeth ym 1859 ond wedi hynny byddai'n 'rhedeg heibio i'r dafarn yn y tywyllwch pan glywai'r delyn a'r dawnsio y tu mewn o achos bod y chwant i ymuno yn y sbri bron â'i lethu.'

Pan oedd yn blentyn, ddiwedd y 19eg ganrif, byddai Margretta'n gwylio pobl yn dawnsio ym mhen draw'r cae, ymhell o olwg y pentrefwyr duwiol a hithau ym mhartïon yr Ysgol Sul. Mae'n rhaid ei bod yn cymryd y cwbl i mewn a bod ganddi gof anhygoel oherwydd ni soniodd ddim am y peth tan ryw nos Wener tua hanner canrif yn ddiweddarach pan ddechreuodd ddisgrifio peth o'r hyn a welodd wrth ei merch, Dr Ceinwen Thomas, sydd erbyn hyn yn byw yn yr Eglwys Newydd. Roedd y broses yn un araf a llafurus nes i Ceinwen ddechrau dehongli disgrifiadau ei mam drwy ddawnsio. 'Na, na,' mynnai'r hen wraig, 'dim fel 'na mae'n dechrau!' a buont yn llafurio am bum awr tan hanner nos pryd roedd y ddawns gyfan gyntaf, Dawns Glamai, wedi'i chofnodi.

Roedd yn weddus, felly fod Dr Ceinwen Thomas yn wraig wadd yng nghyfarfod agoriadol **'Troed yn Ôl a Throed Ymlaen'** yn ystod yr haf. Yn bresennol hefyd i gymryd rhan yng ngweithgareddau Gŵyl Ifan roedd digon o ddynion cyhyrog ac egnïol i blesio hyd yn oed Mrs Margretta Thomas.

Bydd **HAWLIO** yn ôl ar S4C yn fuan.

Problemau gyda nwyddau diffygiol?
Gwyliau siomedig?
Cymdogion trafferthus?
Cysylltwch â ni ar unwaith!!
01286 / 678592

**HAWLIO**

Swyddfa HAWLIO
Dime Goch,
Uned 2, Cibyn,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 2BD.

# CYNGERDD GŴYL DDEWI



**Nos Sul, Mawrth 1af**

**CANTORION ARDWYN CAERDYDD**
*Arweinyddes:* Helena Braithwaite, MBE

RHAGLEN O GERDDORIAETH GAN GYFANSODDWYR CYMREIG
Alawon Gwerin gan Elen Rhys
*Ffliwt* - Viv John
*Cyfeilyddes* - Janice Ball
*Cyflwynydd* - Robin Jones

**EGLWYS EBENESER**
Heol Charles
**8.00 o'r gloch**
Mynediad £5 a £3


AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

**PROFWCH GYMRU MEWN DIWRNOD yn AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN**

Dewch i ddarganfod dros 500 mlynedd o ddiwylliant wedi'i ailgreu gydag amrywiaeth o adeiladau dilys
Gwyliwch y crefftwyr yn arddangos eu sgiliau


CYFLEUSTERAU I YMWELWYR

- Llefydd i fwyta
- Anrhegion a swfeniriau Cymreig
- Cyfleusterau i'r anabl
- Parcio helaeth di-dâl



Ffôn: (01222) 569441

DIWRNOD I'R BRENIN I BOBOL O BOB OED






# Ennill gwobrau a chlod i deledu Cymru

Mae rhaglenni S4C wedi cael eu darlledu mewn dros 100 o wledydd ledled y byd, gan ennill cydnabyddiaeth ryngwladol i'r sianel. Ac mae'r cynnyrch yn ennill gwobrau ac enwebiadau yn gyson mewn gwyliau teledu dylanwadol.
Prawf pendant bod S4C wedi hen ennill ei lle ymysg darlledwyr gorau'r byd.

# Award-winning television for Wales

S4C's programmes have been shown in over 100 countries worldwide, boosting the international recognition for the channel's output. And they also win a steady stream of awards and nominations in prestigious television festivals.
Positive proof that S4C has earned its place alongside the world's top broadcasters.

S4C